Cyngor Bro Llanllwni
Adroddiad Cyfarfod Mawrth 2025

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys, Llanllwni.
Roedd y Clerc wedi rhoi poster o'r agenda yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.
Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion mis Ionawr 2025.

PLISMONA

Cyfeiriwyd at bedwar achos o fewn y plwyf yn ddiweddar a oedd wedi cael sylw gan yr heddlu.

Y CAE CHWARAE

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi.
Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd yn unfrydol gynnal Cyfarfod Cyhoeddus i ffurfio Pwyllgor priodol, nos Lun 07 Ebrill yn Neuadd Gymunedol Llanllwni am 8yh a fyddai'n cynnwys cynrychiolaeth o amryw fudiadau o fewn y plwyf. Byddai'r Clerc yn danfon llythyr at y mudiadau perthnasol.

HYFFORDDIANT DIFFIBRILYDD:

Cafwyd cadarnhad bod y diffibrilyddion ar safle Capel Nonni â T.L.Thomas wedi eu harchwilio'n fanwl ddechrau mis Mawrth.

DIFFYG YMATEB

Roedd y Clerc wedi cysyllu eto'n ddiweddar â Chyngor Sir Caerfyrddin ynglŷn â chyflwr difrifol dros ddwsin o heolydd, safleoedd ac arwyddion o fewn y plwyf. Nid oedd wedi derbyn ymateb gan swyddogion perthnasol.

MANTOLEN

Cyflwynodd y Clerc fantolen o dderbyniadau a thaliadau am y cyfnod 28 Ionawr 2025 - 10 Mawrth 2025. Cafwyd cadarnhad gan y Cynghorwyr bod y wybodaeth gywir wedi ei chyflwyno.

YR YMGYRCH YN ERBYN PEILONAU

Dyffryn Teifi yn erbyn peilonau:
Cyflwynwyd gwybodaeth am gyfarfod a gafodd ei gynnal yn Neuadd Gymunedol Llanllwni yn ddiweddar. Yn bresennol oedd:
Ann Davies AS.
Ben Lake AS.
Ein Jones AS / Llywydd y Senedd.
Cefin Campbell AS
Adam Price AS.

Ymgynghoriad Green Gen Tywi / Teifi:
Cynhelir y digwyddiadau fel a ganlyn:
Capel Bedyddwyr Aberduar - Dydd Iau 20 Mawrth 2025 – 2yp tan 7yh.
Neuadd Goffa Llanpumsaint – Dydd Gwener 21 Mawth 2025 – 11yb tan 4yp.
Ysgol Gymunedol Peniel – Dydd Sadwrn 22 Mawrth 2025 10yb tan 3yp.
Canolfan Lles Llambed – Dydd Iau 27 Mawrth 2025 – 2yp tan 6yh.
Neuadd Gymunedol Llandyfaelog – Dydd Gwener 28 Mawrth 2025 – 2yp tan 7yh.
Pafiliwn Pencader – Dydd Sadwrn – 29 Mawrth 2025 – 10yb tan 3yp.

PENDERFYNWYD CEFNOGI
SSAFA Apêl 2025; Eisteddfod Llanfihangel-ar-arth a'r plwyf.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y Cyfarfod Blynyddol yn Neuadd Gymunedol Llanllwni nos Lun 12 Mai 2025 am 8yh, a'r Cyfarfod Cyffredinol yn dilyn.